# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 15/09/2026 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 16/09/2026 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 23/09/2026 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo)

**PWNC** – **Gwaredu rhydd-ddaliad o ddiddordeb y Cyngor mewn tir sydd ger Caffi Largo, Pwllheli.**

**PENDERFYNIAD –**

Gwaredu o ddiddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn darn o dir, sydd wedi'i leoli ger Caffi Largo, Pwllheli yn uniongyrchol i berchnogion tir cyfagos ar delerau ac amodau i'w penderfynu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –

Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd a'r Aelod Lleol.

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig.

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Efan Thomas MRICS<br>Uwch Syrfewr Stadau |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 15/09/2026 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | |

**Pwnc:** Gwaredu rhydd-ddaliad o ddiddordeb y Cyngor mewn tir sydd ger Caffi Largo, Pwllheli.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad:**

Gwaredu o ddiddordeb rhydd-ddaliadol y Cyngor mewn darn o dir, sydd wedi'i leoli ger Caffi Largo, Pwllheli yn uniongyrchol i berchnogion tir cyfagos ar delerau ac amodau i'w penderfynu gan y Pennaeth Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad:**

Galluogi'r Cyngor i waredu o’u ddiddordeb rhydd-ddaliad y parsel o dir wedi'i ymylu'n goch ar y cynllun yn uniongyrchol i berchnogion y caffi cyfagos.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad**

Mae Caffi Largo wedi elwa ar fuddsoddiad a gwaith adnewyddu sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac wedi sefydlu ei hun fel busnes lleol gwerthfawr. Mae'r perchnogion yn dymuno ehangu gallu gweithredol y busnes drwy gaffael y darnau tir cyfagos, a fydd yn hwyluso darparu lle storio ychwanegol ar gyfer bwyd, offer a gofynion ategol eraill y busnes. Bydd yr ehangu hwn yn gwella effeithlonrwydd gweithrediadau dydd i ddydd y caffi ac yn cefnogi ei dwf parhaus.

Mae'r gwarediad arfaethedig yn cynnig cyfle i gefnogi busnes lleol sefydledig drwy ei alluogi i wella ei gyfleusterau a chryfhau ei gynaliadwyedd hirdymor. Yn ei dro, disgwylir y bydd y cynnig yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'r economi leol drwy ddiogelu a chreu cyfleoedd cyflogaeth posibl, yn ogystal â chefnogi bywiogrwydd yr ardal fel cyrchfan i drigolion ac ymwelwyr.

Gan fod y darpar brynwyr yn berchen ar ac yn gweithredu'r eiddo cyfagos, mae gan y tir werth strategol penodol iddynt nad yw'n debygol o gael ei ailadrodd gan unrhyw brynwr arall. Byddai'r gwarediad felly yn galluogi'r defnydd mwyaf buddiol ac ymarferol o'r tir, gan greu estyniad naturiol i eiddo presennol y busnes a sicrhau bod y tir yn cael ei ddefnyddio'n gynhyrchiol.

Mae'r ddau ddarn o dir wedi'u datgan yn rhai dros ben i ofynion gweithredol y Cyngor ac nid oes eu hangen ar gyfer darparu gwasanaethau'r Cyngor yn awr nac yn y dyfodol rhagweladwy. Ni fyddai cadw'r tir yn darparu unrhyw fudd gweithredol i'r Cyngor a byddai'n parhau i greu atebolrwydd o ran costau rheoli a chynnal a chadw.

Bydd cymeradwyo'r gwarediad uniongyrchol arfaethedig yn galluogi'r Cyngor i symud ymlaen â'r trafodiad mewn modd amserol ac effeithlon, gan leihau'r angen am wariant parhaus sy'n gysylltiedig â pherchnogaeth a chynnal a chadw'r tir, tra'n sicrhau derbyniad cyfalaf i'r awdurdod.

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y trafodiad yn cael ei gwblhau yn unol â'i rwymedigaethau statudol a'i weithdrefnau gwaredu eiddo. Nid oes unrhyw fwriad i waredu'r rhydd-ddaliad nac unrhyw fuddiant lesddaliadol am lai na gwerth y farchnad, a bydd telerau'n cael eu cytuno ar sail prisiad annibynnol ac yn unol â dyletswydd ymddiriedol y Cyngor i sicrhau'r ystyriaeth orau sy'n rhesymol bosibl.

Ystyrir felly fod y dull hwn yn ffordd briodol, gymesur ac ariannol ddoeth o waredu tir sydd dros ben i ofynion y Cyngor, gan gefnogi datblygiad economaidd lleol a sicrhau derbyniad cyfalaf i'r awdurdod.


**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**
Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**
Dim.

**Prif Swyddog Cyllid** – Dewi Morgan - " Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol."

**Swyddog Monitro** – Iwan Evans - " Rwy’n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad a geisir"

**Aelod/au Lleol**: Cynghorydd Hefin Underwood – “Dim gwrthwynebiad o gwbwl i hyn”




# Cynllun - Tir ger Caffi Largo

© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans 100023387 - Cyngor Gwynedd